

## In Memoriam:

# Cylchgrawn Celtaidd yn Swydd Efrog

gan Bill Linnard

**H**offwn rannu gyda darllenwyr *Y Casglwr* hanes Cymdeithas Astudiaethau Celtaidd a ffynnodd yn Swydd Efrog dros hanner canfrif yn ôl, a manylion y cylchgrawn a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas hon. Cylchgrawn academiaidd ydoedd, gyda chynnwys gwerthfawr a diddorol, ond cylchgrawn nad oes fawr o neb yng Nghymru yn gwybod dim amdano bellach.

Yn ôl yn y chwedegau, wrth bori mewn siop lyfrau ail-law yn Greenwich, gwelais chwe chyfrol denau, clawr papur gwyrdd, gyda'r teitl *Yorkshire Celtic Studies*, sef *Transactions of the Yorkshire Society for Celtic Studies*. Trysor annisgwyl felly, ymhlith y llyfrau eraill yn y siop, gan fod y llyfrwerthwr hwnnw yn arbenigo yn bennaf ar lyfrau ar horoleg, clociau, mesuro amser a'r hydred, llongau, a'r llynges Prydeinig. Ar fymrwyl ac o chwilfrydedd, prynais y chwe rhifyn o *YCS*, a darganfod wedyn bod fy set yn gyflawn. Dim ond chwe chyfrol oedd yn y gyfres: cyf. I (1937-8, tt.56); cyf. II (1938-9, tt. 48); cyf. III (1940-6, tt. 32); cyf. IV (1947-8, tt. 32); cyf. V (1949-52, tt. 32); a chyf. VI (1953-8, tt.48).

### Y Bwriad o sefydlu Adran Gelteg ym Mhrifysgol Leeds


Cyhoeddwyd y cylchgrawn *YCS* dan nawdd Prifysgol Leeds. Disgrifir hanes y Gymdeithas a'r cylchgrawn mewn rhagair gan y Golygydd yn y rhifyn cyntaf. Fe sefydlwyd y Gymdeithas (*Yorkshire Society for Celtic Studies*) yn 1929 'er mwyn dod at ei gilydd pobl yn Swydd Efrog gyda diddordeb mewn astudiaethau Celtaidd', a chyda'r brwriad cydnabyddedig ac uchelgeisiol o sefydlu Adran Celteg (cadeiryddiaeth neu swydd darlithydd) ym Mhrifysgol Leeds. Prif bwrpas y cylchgrawn (*YCS*) felly oedd i gyhoeddi papurau ar bynciau Celtaidd (ieithoedd, llenyddiaeth, hanes, archaeoleg, gerddoriaeth ac ati) a gyflwynwyd yn achlysurol yn y Brifysgol gan aelodau'r staff, neu gan ysgolheigion o brifysgolion eraill a wahoddwyd i roi darlith arbennig yn Leeds.

Golygydd y ddwy gyfrol gyntaf o *YCS* oedd Bruce Dickins (Athro Saesneg, Prifysgol Leeds; wedyn Athro Eingl-Sacsoneg, Prifysgol Caergrawnt). Erbyn 1940 y golygydd oedd Frederick Fyvie Bruce (Albanwr, a darlithydd yn Groeg ym Mhrifysgol Leeds tan 1947; wedyn pennaeth

Adran Astudiaethau Beiblaidd, Prifysgol Sheffield), a fe gariodd y baich golygyddol tan 1958.

### Nifer o aelodau er anrhydedd o Gymru

Yn y cylchgrawn 1948 ceir rhestr gyflawn o swyddogion y Gymdeithas, aelodau anrhyddedus, ac aelodau cyffredin. Llywydd y Gymdeithas oedd M. J. Stewart (Athro



Clawr *YCS*, cyfrol I, 1937-8.

Patholeg, Prifysgol Leeds), ac athrawon yn Leeds oedd rhan fwya'r swyddogion eraill. Ymhlith yr aelodau er anrhydedd gwelir enwau enwog o Gymru, megis Syr Idris Bell, W. J. Gruffydd, Syr Cyril Fox, Arglwydd Harlech, Syr John Lloyd, a Syr Ifor Williams. Heblaw rheiny, ceir enwau ysgolheigion o fri o wledydd Celtaidd eraill sef Iwerddon a'r Alban, ac hefyd Mrs R. Bromwich (Caergrawnt) a'r Athro J. R. R. Tolkien (Rhydychen). Trigolion o ddinas Leeds bron heb eithriad oedd yr aelodau cyffredin, dim ond 69 ohonynt mewn nifer, a neb ohonynt gyda chyfeiriad yng Nghymru. Bach iawn oedd y Gymdeithas felly, ac mae'n glir o enwau'r aelodau cyffredin fod llawer ohonynt yn *expats*, sef alltudion Celtaidd yn Leeds.

### Ysgolheigion enwocaf y cyfnod yn cyfrannu

Ond beth am gynnwys y cylchgrawn? Yr iaith fain oedd cyfrwng y cylchgrawn i gyd, wrth gwrs. Ymhob gyfrol ceir dwy neu dair erthygl sylweddol, yn ogystal â nodion

byrion. Felly cymysgedd o erthyglau o Loegr ac o'r gwledydd Celtaidd gan rai o ysgolheigion enwocaf y cyfnod yw cynnwys *YCS*. Er enghraifft, dyma ddetholiad o'r pynciau a drafodwyd yn y cylchgrawn: Clawdd Offa yn yr wythfed ganrif (gan Syr Cyril Fox); Dafydd ap Gwilym (dwy erthygl, y naill gan H. I. Bell, y llall gan Thomas Parry); dyneiddiaeth Eidalaid a rhyddiaith Gymraeg (gan T. Gwynfor Griffith); a llythiau'r Morrisiaid (gan Gareth Alban Davies). Ymhlith yr erthyglau eraill ceir gemau megis '*Carmina Gadelica*' (sef hymnau, swynion a llên gwerin o Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban); nodyn ar ddau air fenthyg o Saesneg Canol yn y Gymraeg (sef 'cwndid' a 'gwalop'); iaith y Pictiaid; a choedwigoedd hud mewn rhamantau Arthuriaid.

### Talcan caled yn wynebu'r Gymdeithas yn Leeds

Argraffwyd y cylchgrawn *YCS* gan Chorley & Pickersgill Ltd, Leeds, a'r pris i'r cyhoedd oedd pum swllt y gyfrol. Mae'r pum gyfrol gyntaf yn brintiedig mewn *octavo* ac yn raenus iawn. Ond talcan caled oedd yn wynebu'r Gymdeithas fach yn Leeds, â phroblemau ariannol yn cynyddu ar ôl y rhyfel, mae'n amlwg: cyhoeddwyd y chweched gyfrol (yr un olaf) mewn ffur rattach, sef teipysgrif *quarto* wedi'i ddyblygu.

Cyfraniad dewr a gwerthfawr i hybu astudiaethau Celtaidd yng Ngogledd Lloegr oedd *YCS* felly. Ysywaeth, bach iawn oedd aelodaeth y Gymdeithas a bach iawn felly oedd cylchrediad y cylchgrawn. Ychydig iawn o gopiau o'r cylchgrawn a argraffwyd, a llai byth wedi goroesi. Erbyn heddiw mae rhifynnau *YCS* yn eitemau prin iawn.

Cafodd y Gymdeithas fach hon fywyd byr mewn cyfnod anodd iawn yn ein hanes, sef cyn, yn ystod ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Fe wnaeth y Gymdeithas ymdrech dewr i oroesi'r Ail Ryfel Byd, ond erbyn y pumdegau roedd yr ysgrifen ar y wal, a bu farw'r cylchgrawn, a'r Gymdeithas, am wn i.

### Yn Eisiau

### Y TYDDYNWR

cyf. 1, rhif 4 Mai 1923., Wrecsam,

Hughes a'i fab.

Cysyllter ar 01970 617171